Llythyr gan Gadeirydd y Bwrdd

Gyda chefnogaeth ein partneriaid a'n cyfeillion, roedd 2022 yn flwyddyn anhygoel arall i'r Sefydliad Brenhinol.

Parhaodd y Sefydliad i weithio gyda rhwydwaith eang a thrawiadol yn y DU ac o amgylch y byd, wedi ei lywodraethu gan yr optimistiaeth a feithrinir gan ein Penaethiaid a'r angerdd i fynd i'r afael â rhai o'r problemau mwyaf difrifol rydyn ni'n eu hwynebu gartref a thramor.

Roedden ni ein wrth ein bodd o gael croesawu Amanda Berry OBE – yn dilyn ei chyfnod o 24 mlynedd yn Brif Weithredwr BAFTA – fel ein Prif Weithredwr newydd. Mae profiad helaeth ac arweinyddiaeth benderfynol Amanda eisoes wedi profi'n werthfawr a bydd yn parhau i fod o bwysigrwydd mawr wrth i ni fwrw ymlaen gyda'n gwaith uchelgeisiol.

Mae tudalennau'r adroddiad hwn yn disgrifio blwyddyn brysur a llwyddiannus 2022. Fel y byddwch yn darllen, sefydlwyd y Wobr Earthshot fel endid annibynnol, yn ei ganiatáu i ehangu ar y raddfa sydd ei hangen i fynd i'r afael â'r heriau mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu ein planed. Mae hyn yn enghraifft wych o allu'r Sefydliad Brenhinol i arwain mentrau a all fynd ymlaen i sefyll ar eu traed eu hunain.

Bu Canolfan Plentyndod Cynnar y Sefydliad Brenhinol draw yn Nenmarc i ddysgu mwy am gymdeithas sy'n canolbwyntio ar y plentyn, a lansiwyd arolwg canfyddiadau blynyddol a fydd yn gweithredu fel mesurydd hirdymor i lywio ein gwaith. Ddiwedd mis Ionawr 2023, lansiodd Tywysoges Cymru ymgyrch proffil uchel, yn canolbwyntio ar bwysigrwydd plentyndod cynnar.

Mae Tasgluoedd *United for Wildlife* wedi gweld nifer anhygoel o ymchwiliadau troseddol i fasnachu cynhyrchion bywyd gwyllt yn anghyfreithlon, sydd wedi cyfrannu at dros 500 o ymchwiliadau gorfodi'r gyfraith.

Mae hyn yn arwydd o gynnydd anhygoel yn y frwydr i roi diwedd ar y fasnach anghyfreithlon mewn bywyd gwyllt.

Dathlon ni bum mlynedd ers lansio *Heads Together* gydag ymdrechion parhaus yn y maes iechyd meddwl, ochr yn ochr â syniadau ffres ar sut byddwn yn parhau i gefnogi'r gwaith arloesol hwn.

Yn y flwyddyn sydd i ddod, bydd y Sefydliad Brenhinol yn lansio rhaglen arloesol newydd yn canolbwyntio ar ddigartrefedd. Mae'r mater hwn yn un mae Tywysog Cymru a'r Sefydliad wedi eu hymrwymo iddo ers peth amser, ac rydym yn edrych ymlaen at gyhoeddi rhagor o fanylion yn y dyfodol agos. Ochr yn ochr â hyn, ac fel rhan o'n rhaglenni newydd a'r rhai a sefydlwyd eisoes, byddwn yn parhau i sicrhau ein bod yn cefnogi'r rhai sy'n dioddef o effeithiau'r argyfwng costau byw, mater sy'n cael effaith ar lawer o'r gwaith mae'r Sefydliad yn ymgymryd ag ef eisoes.

Ar draws ein meysydd cyfredol a rhai newydd, byddwn yn parhau i fod yn uchelgeisiol ac yn benderfynol, i fynegi'r farn optimistaidd bod newid yn bosibl, a chyda'n gilydd gallwn greu gwell byd i'r rhai yn ein cymunedau a thu hwnt.

Fel arfer, rwy'n diolch i bawb a wnaeth ein hymdrechion aruthrol y llynedd yn bosibl, yn arbennig fy nghyd-ymddiriedolwyr o'r gorffennol ac yn y presennol sydd wedi rhoi o'u hamser mor rhwydd, ac rwy'n ddiolchgar am y gefnogaeth gref barhaus o'r fath wrth inni edrych ymlaen at flwyddyn gynhyrfus i ddod.

Yr Arglwydd Hague o Richmond
Cadeirydd y Sefydliad Brenhinol

22 Mehefin 2023

Llythyr gan y Prif Weithredwr

Mae fy 12 mis cyntaf fel Prif Weithredwr y Sefydliad Brenhinol wedi bod yn rhai llawn boddhad. Rydw i wedi fy ysbrydoli gymaint gan ymroddiad ac ymrwymiad Eu Huchelderau Brenhinol Tywysog a Thywysoges Cymru; mae ein gwaith wedi ei lywio gan eu hangerdd a'u diddordebau, yn ein galluogi i gyflawni rhaglenni arloesol sy'n ysbrydoli gweithredu, effaith a newid cynaliadwy.

Rydw i hefyd wedi cael llawenydd pur o weithio ochr yn ochr â thîm gwirioneddol anhygoel, y staff a'n Bwrdd o Ymddiriedolwyr, sy'n sicrhau ein bod ni'n cyflawni effaith wirioneddol bositif yn erbyn rhai o broblemau mwyaf pwysig heddiw.

Mae'r Sefydliad Brenhinol yn gorff arbennig, ac fe gredaf ei fod mewn sefyllfa unigryw i ddod â rhai o'r meddyliau gorau a mwyaf disglair yn y byd at ei gilydd i gyflawni ein rhaglenni gwaith uchelgeisiol ac optimistaidd fel gallwn ni fynd i'r afael â phroblemau pwysicaf cymdeithas. Rydym yn credu bod newid positif yn bosibl a gyda'n gilydd gallwn greu byd gwell i'r rhai yn ein cymunedau a thu hwnt.

Er mwyn cyflawni newid rhaid inni ddeall y cyfle sy'n bodoli, ac mae pob agwedd o'n gwaith yn cael ei harwain gan dystiolaeth, ac rydym yn defnyddio ymchwil manwl a chwilfrydig i sicrhau effaith a hygrededd ein gwaith.

Mae ein rhoddwyr a'n partneriaid yn rhannu ein gwerthoedd ac yn ein cefnogi ag egni go iawn ac yn sicrhau momentwm y tu ôl i'r gwaith rydym ni'n ei wneud. Codi arian sy'n pweru ein llwyddiannau, gan gynnwys y Wobr Earthshot, a esblygodd yn 2022 o raglen a grëwyd y tu mewn i'r Sefydliad yn elusen annibynnol sy'n cael ei hadnabod yn fyd-eang. Mae'n esboniad gwych o sut gall y Sefydliad ddefnyddio ein meddylfryd optimistaidd i gychwyn, datblygu, adeiladu a buddsoddi mewn syniadau sy'n trawsnewid pethau o'r syniad gwreiddiol i'w roi ar waith yn ei gyfanrwydd. Gallai'r mentrau hyn wedyn ddatblygu neu chwyddo ymhellach, un ai oddi mewn i'r Sefydliad neu'r tu allan iddo, yn dibynnu ar y llwybr gorau o gyflawni effaith sylweddol a chynaliadwy.

Roedd y gweithgareddau arloesol gan Ganolfan Plentyndod Cynnar y Sefydliad Brenhinol; y gweithredu arloesol dan faner *United for Wildlife*; a gwasanaeth carolau yn Abaty Westminster, wedi'i gysegru i Ei Diweddar Fawrhydi y Frenhines Elizabeth II ac yn diolch y rhai a fu'n rhannu'r gwerthoedd roedd hi'n sefyll drostynt, yn ddim ond rhai o'r uchafbwyntiau o waith y Sefydliad y llynedd. Mae llawer i ymfalchïo ynddo, ac mae'n gosod y safon yn uchel ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

Gallwn fynd ati i wneud y gwaith a wnawn drwy rwydwaith anhygoel sy'n cefnogi'r Sefydliad. Manteisiaf felly ar y cyfle hwn i ddiolch yn ddiffuant i bawb sydd wedi gwneud ein gwaith yn bosibl.

Amanda Berry OBE
Prif Weithredwr y Sefydliad Brenhinol

22 Mehefin 2023